Senedd Cymru
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion ymhlith dysgwyr

Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu

Ebrill 2022

Fel rhan o ymchwiliad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg i aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion ymhlith dysgwyr, cynigiodd y Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion ymgynghoriad i gasglu safbwyntiau plant a phobl ifanc drwy arolwg ar-lein.

1. Ymgysylltiad

1. Cynhaliodd y Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion arolwg ar-lein rhwng 18 Mawrth ac 1 Ebrill. Roedd cwestiynau'r arolwg ansoddol yn targedu pobl ifanc 11 i 18 oed ac yn gofyn sut roeddent yn meddwl y gellid mynd i'r afael ag aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion, mewn ysgolion a cholegau a'r tu allan iddynt.

2. Er mwyn llunio'r crynodeb hwn, cynhaliwyd dadansoddiad o set ddata gyflawn; gellir priodoli'r holl ddata i ymatebion unigol a gellir dadansoddi ymhellach ar gais.

Cyfranogwyr

3. Cafwyd hyd i gyfranogwyr drwy alwad i weithredu ar sianeli cyfryngau cymdeithasol a thrwy randdeiliaid y Pwyllgor.

4. Cafodd yr ymgynghoriad 106 o ymatebion gan gyfranogwyr rhwng 12 a 18 oed.

5. Cafwyd ymatebion o 12 o ardaloedd awdurdodau lleol.

6. Cafwyd chwe ymateb gan rai a oedd yn astudio mewn coleg, 95 gan rai mewn ysgolion uwchradd.

7. Hoffai'r Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion ddiolch i bawb a gyfrannodd at y rhaglen ymgysylltu.

Methodoleg

8. Roedd ymgynghoriad y Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion yn ystyried un o gylchoedd gorchwyl penodol yr ymchwiliad ("Effeithiolrwydd polisïau a chanllawiau cyfredol, a'r camau i nodi atebion a gwelliannau posibl").

9. Roedd hefyd yn sicrhau ffocws ar weledigaeth y Pwyllgor o ran Strategaeth y Chweched Senedd (i "[g]anolbwyntio ar p'un a yw polisi a deddfwriaeth yn cael eu gweithredu: a ydynt yn gwneud gwahaniaeth i fywydau plant a phobl ifanc").

10. Yn olaf, roedd yn grymuso pobl ifanc i awgrymu sut i fynd i'r afael â'r mater hwn o'u safbwynt hwy.

11. Ynghyd â chwestiynau ar oedran, awdurdod lleol a statws astudio, gofynnwyd y pedwar cwestiwn agored a ganlyn i gyfranogwyr:

I. Dywedwch wrthym sut ry'ch chi'n meddwl y gall y bobl sy'n gwneud penderfyniadau sy'n effeithio ar bobl ifanc fynd i'r afael â'r broblem o aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion mewn amgylchedd dysgu, er enghraifft ysgol neu goleg?

II. Dywedwch wrthym sut ry'ch chi'n meddwl y gall y bobl sy'n gwneud penderfyniadau sy'n effeithio ar bobl ifanc fynd i'r afael â'r broblem o aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion y tu allan i amgylchedd dysgu, er enghraifft pan fyddwch chi gartref neu'n treulio amser gyda'ch ffrindiau y tu allan i'r ysgol neu'r coleg?

III. Ydych chi'n meddwl bod unrhyw beth yn rhwystro'ch awgrymiadau? Er enghraifft, a fyddai'n costio arian neu'n cymryd amser i ddigwydd? A oes gennych chi unrhyw syniadau ynghylch sut i oresgyn y rhwystrau hyn?

IV. A oes gennych chi unrhyw syniadau neu sylwadau eraill ar y pwnc hwn yr hoffech chi eu rhannu gyda'r Pwyllgor?

Mae ymatebion i gwestiwn IV wedi'u cynnwys yn y crynodebau o'r tri chwestiwn cyntaf yn seiliedig ar y themâu perthnasol.

12. Gofynnwyd i gyfranogwyr beidio â rhannu profiadau personol o aflonyddu rhywiol. Yn hytrach, gofynnwyd iddynt ganolbwyntio eu hatebion ar ffyrdd o ddatrys problemau aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion.

2. Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu: datrys y broblem

Isod mae'r themâu sy'n dod i'r amlwg o ddau gwestiwn cyntaf yr ymgynghoriad, ar sut i ddatrys y broblem o aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion, y tu mewn a'r tu allan i amgylchedd dysgu.

Addysgu pobl ifanc

13. Roedd addysg yn thema a gododd dro ar ôl tro yn yr ymatebion, gyda galwadau am fwy o addysg am beth yw aflonyddu rhywiol, beth mae caniatâd yn ei olygu a sut i roi gwybod am ddigwyddiad. Soniodd 41 y cant o'r ymatebwyr am addysgu pobl ifanc yn eu hymatebion.

14. Roedd rhai ymatebion yn sôn am fwy o addysg o fewn amserlen yr ysgol a'r coleg. Awgrymodd eraill y dylid cael partneriaid allanol, megis yr heddlu, i roi sgyrsiau.

> *"Addysgu disgyblion ynghylch y canlyniadau a ddaw yn sgil y gweithredoedd hyn. Rhoi gwersi."*

> *"Gwell addysg am beth yw aflonyddu rhywiol, sut i roi gwybod amdano, ac i bwy."*

> *"Addysgu pobl ifanc ar beth yw aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion a nodi nad yw hyn yn ymddygiad derbyniol. Siarad am ganiatâd, dysgu beth yw caniatâd a beth nad yw'n ganiatâd."*

> *"Rydyn ni angen i bobl ifanc gael gwybod am aflonyddu rhywiol, heb iddo gael ei orchuddio â siwgr, dweud y gwir wrthyn nhw sut mae'n effeithio ar bobl, rhoi ystadegau go iawn ar y mater, addysgu am ganiatâd."*

15. Roedd addysg hefyd yn thema gref pan holwyd ynghylch mynd i'r afael â'r broblem y tu allan i'r amgylchedd dysgu. Teimlai llawer y byddai addysg mewn ysgol neu goleg hefyd yn trosi i atebion y tu allan i'r amgylcheddau hyn.

16. Yn ogystal ag addysgu am natur aflonyddu rhywiol a chaniatâd, awgrymodd ymatebwyr fwy o ymwybyddiaeth o ganlyniadau aflonyddu ar gyfoedion a'r effaith y gall aflonyddu ei chael.

"Rwy'n meddwl y byddai dechrau o fewn y system addysg yn mynd i'r afael â'r broblem y tu mewn a'r tu allan i amgylchedd dysgu. - efallai... byddai codi ymwybyddiaeth o beth yw aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion o fudd i'r ateb."

"Dysgu pobl ifanc nad yw'n briodol, rhoi dealltwriaeth addysgiadol llawn gwybodaeth iddyn nhw o beth yw aflonyddu rhywiol, sut y gall effeithio ar bobl, beth fydd yn digwydd os bydd yr aflonyddwr yn cael ei ddal."

"Addysg ehangach ar ganiatâd hefyd. Mae'n cael ei gyflwyno fel rhywbeth du a gwyn iawn yn yr ysgol, ac felly mae llawer o bobl yn cael eu gadael yn ddryslyd pan fyddant yn mynd i mewn i ardal lwyd. Mae angen i ni ddysgu caniatâd gan fod pobl yn fwy tebygol o'i brofi – ychydig iawn o bobl sy'n cael eu hymosod yn y ffordd dreisgar a ddangosir yn yr ysgol."

"Addysg ar y pwnc, man diogel i siarad, llwybr y gallwch ei ddilyn i geisio gweithredu ymhellach drwy'r ysgol."

Disgyblaeth gliriach

17. Soniodd 16 y cant o'r ymatebwyr am ddisgyblaeth yn eu hymatebion.

18. O fewn y system addysg, teimlai rhai ymatebwyr fod angen mwy o gosb am achosion o aflonyddu rhywiol a gwella'r ffordd y caiff cwynion eu huwchgyfeirio.

> *"Annog ysgolion i gymryd mwy o gamau yn erbyn aflonyddu. Nid yw rhai ysgolion yn gwneud unrhyw beth, ac mae'r dioddefwyr yn cael eu gorfodi i symud ysgolion neu weithio rhywbeth allan eu hunain."*

> *"Rwy'n credu bod angen i'r bobl sy'n gyfrifol am adroddiadau aflonyddu rhywiol wneud mwy i gosbi'r troseddwr, ac nid dim ond gorfod aros ar ôl yr ysgol ac yna ffonio gartref yw ystyr hyn. Rwy'n cyfeirio at dynnu'r pethau maen nhw'n eu mwynhau a'u breintiau o fewn yr ysgol i ffwrdd, er enghraifft methu â chymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol."*

> *"Cosbi cyfoedion sy'n gwneud sylwadau neu weithredoedd aflonyddu rhywiol. Cael teledu cylch cyfyng ym mhob ystafell ac eithrio ystafelloedd ymolchi er mwyn cadw llygad barcud."*

> *"Nid yw aros ar ôl yr ysgol na'u gwahardd o'r ysgol yn gwneud dim oherwydd maen nhw'n dod yn ôl ac yn ei wneud i ferch/unigolyn arall."*

19. Y tu allan i'r system addysg, roedd yr awgrymiadau'n cynnwys mwy o fewnbwn gan rieni, yr heddlu a'r awdurdod lleol.

20. Roedd rhai ymatebion hefyd yn awgrymu gwell cyfreithiau yn erbyn aflonyddu ar y cyfryngau cymdeithasol.

> *"Rheolau llymach yn erbyn aflonyddu rhywiol."*

> *"Rhoi gwybod amdano. Gallai gael ei ystyried yn drosedd ac felly ni ddylai fod yn rhywbeth rydych yn anghofio amdano."*

"Y llywodraeth a gwefannau cyfryngau cymdeithasol i sicrhau bod mwy o ddeddfau, gan ei gwneud hi'n fwy anodd i'r pethau hyn ddigwydd."

"Heddlu, rhieni, rhybuddion ac ati. Os ydyn nhw'n ei wneud y tu allan i'r ysgol, yn enwedig i unigolyn arall o'r un ysgol neu os bydd rhywun arall yn ei riportio i'r ysgol dylai gael sancsiwn."

Ei gymryd o ddifrif

21. Roedd 16 y cant o'r ymatebion yn sôn am yr angen i gymryd aflonyddu rhywiol fwy o ddifrif yn eu hysgol neu goleg.

22. Teimlai rhai fod athrawon yn rhy gyflym i esgusodi'r ymddygiad, yn hytrach na gweithredu. Teimlai eraill y dylai fod mwy o ymwybyddiaeth ymhlith athrawon o'r aflonyddu rhywiol sy'n digwydd.

"Athrawon i gymryd aflonyddu rhywiol o ddifrif a rhoi cosb briodol. Athrawon i fod yn fwy ymwybodol wrth nodi aflonyddu a mynd i'r afael ag ef."

"Rwy'n meddwl bod llawer o athrawon a rhai myfyrwyr yn anwybyddu aflonyddu rhywiol. Dydyn nhw ddim yn ei gymryd o ddifrif fel y dylen nhw."

"O fy mhrofiad o athrawon yn enwedig o fewn blynyddoedd cyfun, maen nhw'n dweud mai dim ond 'chwarae o gwmpas' yw sefyllfaoedd fel hyn pan dwi'n teimlo y dylai hyn gael ei gymryd o ddifrif. Fodd bynnag, mewn amgylchedd coleg, rwy'n teimlo bod cyhuddiadau'n cael eu cymryd llawer mwy o ddifrif."

"Pan fyddwch chi'n cael gwybod am neu wedi gweld aflonyddu rhywiol, gwnewch yn siŵr eich bod chi'n gwneud rhywbeth yn ei gylch, peidiwch â'i esgusodi. Cymerwch y peth o ddifrif, fel hiliaeth. Cefnogwch ferched i fynd i'r afael ag aflonyddu a cham-drin yn rhywiol."

"...Rwy'n credu bod angen i oedolion/athrawon fod yn fwy ymwybodol o'r hyn y mae plant/myfyrwyr yn ei wneud a pheidio ag anwybyddu rhai o'r arwyddion y gallai rhywbeth sy'n peri pryder fod yn digwydd."

"Trin y pwnc gyda'r difrifoldeb y mae'n ei haeddu. Yn aml, nid yw athrawon/darlithwyr ac ati yn ymwybodol o aflonyddu rhywiol a gellir dweud yn aml fod aflonyddu rhywiol wedi digwydd oherwydd dadl, er enghraifft, neu 'dynnu coes' – nid yw hyn yn wir ac

nid yw'n mynd i'r afael â gwreiddiau aflonyddu rhywiol; yn syml, rydyn ni'n cicio'r can i lawr y ffordd drwy ddweud hyn…"

Gwasanaethau cymorth

23. Soniodd 16 y cant o'r ymatebion am y cymorth sydd ar gael i ddioddefwyr aflonyddu rhywiol. Awgrymodd llawer fod angen mwy o gymorth a mwy o ymwybyddiaeth o sut i gael gafael ar y cymorth sydd ar gael ar hyn o bryd. Roedd hyn yn berthnasol o fewn yr amgylchedd dysgu a'r tu allan iddo.

"Gwneud yn siŵr eu bod yn gwybod ble i fynd i gael mwy o gyngor fel gwefannau, meddygon, fferyllfa fel eu bod yn gwybod y gallant ei wneud yn gyfrinachol os oes angen."

"Creu lle diogel i ddioddefwyr siarad am eu profiadau, gan gymryd myfyrwyr sy'n cwyno o ddifrif."

"Creu amgylchedd lle mae pobl yn gallu siarad am aflonyddu/ymosodiad heb y pwysau i ddod ymlaen yn ei gylch. Gall llawer o fyfyrwyr deimlo'n ynysig wrth geisio siarad â rhywun gan eu bod yn aml yn meddwl y bydd athro yn eu gwthio i gymryd camau pellach/ysgrifennu datganiadau/mynd at yr heddlu/dweud wrth athrawon eraill ac ati. Mae angen lle ar fyfyrwyr i siarad am yr hyn sydd wedi digwydd heb deimlo'n ofnus o unrhyw un o'r canlyniadau hyn. Mae arnom angen lleoliadau mwy anffurfiol lle mae pobl yn teimlo'n gyfforddus i wneud hyn. Mae unigedd a pheidio â siarad ond yn arwain at ganlyniadau mwy difrifol."

"Ei gwneud yn fwy amlwg bod pobl yn ceisio helpu'r dioddefwyr ac nid amddiffyn y troseddwr/aflonyddwr. ....Helpu'r myfyrwyr i ddod yn ymwybodol o beth yw aflonyddu rhywiol, beth yw eu hawliau ar ôl y ffaith, a pha ganlyniadau y gall a sawl a gafodd ei aflonyddu eu hwynebu, a gall helpu i atal yr aflonyddu yn y lle cyntaf."

"Gwneud i bobl ifanc yn y gymuned gael ymdeimlad o ymddiriedaeth yn yr oedolion sydd i fod i ofalu amdanyn nhw. Efallai y gallai fod yn rhywun sy'n gweithio gyda'r heddlu i riportio unrhyw ddigwyddiadau neu bryderon."

"Neilltuo aelodau penodol o staff, y mae myfyrwyr yn ymddiried ynddynt, i'r rôl. Trefnu bod dyn wedi'i neilltuo ar gyfer y bechgyn a menyw wedi'i neilltuo i'r merched."

Ymwybyddiaeth o ddiogelwch

24. Y tu allan i'r amgylchedd dysgu, siaradodd nifer fach o ymatebwyr am fwy o ymwybyddiaeth o ddiogelwch.

> *"Gallech chi osgoi lleoedd tawel lle nad oes neb yn mynd a cheisio mynd i leoedd lle mae oedolion yn bresennol."*

> *"TCC mewn mannau poblogaidd ac amhoblogaidd fel parciau a lonydd cefn fel ei bod yn hawdd monitro aflonyddu rhywiol."*

> *"Bod yn ymwybodol o lle ydych chi a gwneud yn siŵr eich bod yn ffrindiau gyda'r bobl iawn."*

3. Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu: Rhwystrau

Isod mae'r themâu a ddeilliodd o drydydd cwestiwn yr ymgynghoriad ar rwystrau i'r syniadau a gynigiwyd.

Arian

25. Roedd 14 y cant o'r ymatebwyr yn meddwl y byddai'r awgrymiadau a wnaed ganddynt, megis mwy o hyfforddiant, adnoddau a chymorth, yn costio arian. Ond teimlai'r rhan fwyaf fod angen yr atebion er gwaethaf y rhwystr hwn.

> *"Wrth gwrs byddai'n costio arian, ond mae'n broblem y mae angen gwario arian arni."*

> *"Efallai y bydd angen hyfforddiant i gefnogi athrawon a allai gostio arian a chymryd amser."*

> *"Y prif rwystrau yw arian, ni all yr ysgol ddarparu popeth ac ni all ariannu na dod o hyd i amser ychwanegol i addysgu myfyrwyr am y peth."*

Amser

26. Roedd 18 y cant o'r ymatebwyr yn meddwl y byddai'n cymryd amser i roi'r newidiadau yr oeddent wedi'u hawgrymu ar waith, ond eto, roedd y rhan fwyaf yn teimlo y byddai'n amser gwerthfawr.

> *"Ie byddai'n cymryd amser ond yn sicr mae'n werth yr amser gan fod addysg ar y pwnc hwn yn bwysig iawn i greu amgylchedd mwy diogel."*

> *"Bydd yn cymryd amser ac o bosibl arian i hyfforddi athrawon ar sut i ymdrin â'r peth ond dwi'n meddwl y dylai fod yn flaenoriaeth o ystyried pwysigrwydd a difrifoldeb."*

> *"Byddai'n cymryd amser, ond byddai'n hawdd goresgyn hynny drwy gymryd amser allan o wers ar ryw adeg neu ei ddysgu yn y dosbarth."*

Amharodrwydd i siarad

27. Roedd rhai ymatebion yn sôn ei bod yn anodd i bobl ifanc siarad am eu profiadau.

> *"Mae angen llawer o ddewrder ac ymdrech ar bobl ifanc, er enghraifft, i drafod eu hiechyd meddwl, ac mae angen cydnabod hyn."*

28. Teimlai eraill y gallai fod yn anodd o safbwynt yr oedolyn hefyd.

> *"Gallai athrawon fod yn anghyfforddus yn siarad am berthnasoedd. Gallai hyfforddiant ddatrys y broblem hon."*

Diffyg cymorth gan oedolion

29. Roedd nifer o ymatebion yn sôn am y diffyg cymorth gan oedolion fel rhwystr i unrhyw newid.

> *"Y prif rwystr yw nad yw wedi bod yn ddigon pwysig, ym meddyliau pobl mewn pŵer. Mae menywod a merched wedi dioddef hyn yn rhy hir."*

> *"Pobl ddim yn gwrando."*

> *"Amharodrwydd gan athrawon a rhieni yw'r rhwystr mwyaf. Maen nhw'n meddwl bod y ffaith bod rhywun yn fyfyriwr yn golygu y gallan nhw aflonyddu heb wynebu cosb..."*

4. Y bwrdd golygyddol

30. Yn ogystal â'r arolwg ar-lein, cysylltodd y Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion â nifer o sefydliadau i sefydlu bwrdd golygyddol o blant a phobl ifanc. Diben y bwrdd golygyddol oedd dadansoddi'r data a gafwyd o'r arolwg a thrafod eu dealltwriaeth o'r materion, yr atebion a'r gwelliannau posibl ac yna rhoi adborth i'r Pwyllgor.

31. Cysylltwyd â myfyrwyr Coleg Cambria yng Nglannau Dyfrdwy. Cynhaliodd y Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion weithdy gyda'r grŵp o bum myfyriwr Ffilm a'r Cyfryngau, lle buom yn trafod yr ymatebion i'r arolwg a'r atebion posibl i'r broblem o aflonyddu rhywiol ymhlith dysgwyr.

32. Blaenoriaethodd y myfyrwyr y themâu allweddol, gan ddewis y dyfyniadau a oedd yn dangos y rhain orau ac yna trafodwyd y ffordd orau o gyflwyno'r canfyddiadau i'r Pwyllgor.

33. Blaenoriaethwyd y prif negeseuon yn bedwar argymhelliad i'r Pwyllgor eu hystyried:

Argymhelliad 1: Credwn fod angen mwy o addysg mewn ysgolion a cholegau ar beth yn union yw aflonyddu rhywiol

Argymhelliad 2: Credwn y dylai fod mwy o ganllawiau i athrawon ar sut i fynd i'r afael â chyhuddiadau o aflonyddu rhywiol

Argymhelliad 3: Credwn y dylai fod canllawiau cliriach ar ddisgyblaeth i'r rhai sy'n aflonyddu'n rhywiol ar eraill

Argymhelliad 4: Credwn y dylai fod mwy o gymorth ar gael i ddioddefwyr aflonyddu rhywiol

34. Cafodd canfyddiadau'r bwrdd golygyddol eu troi'n fideo, a gaiff ei gyflwyno i'r Pwyllgor.

Atodiad 1

Oedran yr ymatebwyr i'r arolwg



Statws astudio yr ymatebwyr i'r arolwg